



Nationwide Retail Systems
TRUSTe**CASHLESS**

Pecyn Gwybodaeth i Rieni

Ysgol Gyfun Gwynllyw

**TORFAEN
COUNTY
BOROUGH**



**BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN**

Nationwide Retail Systems
SMART ID

Manteision System Arlwyo Heb Arian 'Trust-e'

- Cynyddu cyflymder y gwasanaeth ac felly lleihau'r amser ciwio
- Cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar Brydau Ysgol am Ddim
- Cyfrinachedd o ran Prydau Ysgol am Ddim ac felly lleihau bwlio
- Cyfleuster i dalu ar lein
- Dim angen cario arian parod felly'n atal colled/dwyn
- Rhybuddion awtomatig i atal disgyblion rhag prynu eitemau sy'n achosi alergedd
- Myfyrwyr yn cael cyfle i ddysgu am reoli ffyrdd o fyw pwysig drwy fonitro eu cyfrifon eu hunain
- Cyfleusterau adrodd sy'n helpu i leihau gwastraff a gwella effeithiolrwydd y gwasanaethau prydau bwyd yn gyffredinol

Gwybodaeth am yr Arolwg Ysgolion Iach

Mae prydau ysgol wedi ysgogi tipyn o ddi-ddordeb eang yn y blynyddoedd diweddar, a hynny'n genedlaethol. Cafwyd pryderon ynghylch ansawdd maethol y bwyd sydd yn cael ei ddarparu ynghyd â thystiolaeth o gynnydd mewn gordewdra ymhlith plant.

Mae Arolwg Iechyd yn Lloegr wedi canfod bod 16.6% o fechgyn ac 16.7% o ferched rhwng 2-15 oed yn ordew a bod 13.6% pellach o fechgyn ac 14.3% o ferched dros bwysau. Fe wnaeth yr arolwg hefyd ganfod bod y mwyafrif o blant yn bwyta gormod o fraster, siwgr ychwanegol a halen, ac mai dau ddarn o ffrwythau a llysiau y dydd y maent yn eu bwyta o'r pump a argymhellir.

Mae Nationwide Retail Systems (NRS) mewn partneriaeth â Chymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol (LACA) ac maent yn gweithio'n agos gyda hwy i sicrhau ein bod yn dilyn y safonau presennol. Rydym hefyd yn cynnal trafodaethau cyson ynghylch datblygiadau yn y dyfodol a'r anghenion posibl.

Mae NRS yn cynnig cyfleuster dyfarnu pwyntiau ar gyfer bwyta'n iach. Gellir dyfarnu pwyntiau ar gyfer eitemau iach, felly, pan fyddant yn prynu'r eitemau hyn, bydd y pwyntiau yn cael eu hychwanegu at gyfrifon y staff/disgyblion. Mae hyn yn galluogi staff i weld adroddiad yn dangos pwy sydd yn bwyta mwyaf iach a gwobrwyo'r camau hyn mewn nifer o ffyrdd.

Manteision System Heb Arian 'Trust-e' ar fwyta'n iach

- Gwella ffyrdd o reoli maeth a diet
- Annog bwyta'n iach y gellir ei fonitro trwy'r cyfleuster adrodd
- Dim mwy o ddefnyddio arian cinio i brynu y tu allan i'r ysgol
- Mae'r cyfleuster adrodd manwl yn caniatáu mynediad i gyfrifon disgyblion a'u harferion bwyta

Gwybodaeth ar Ddiogelu Data

Mae NRS wedi ei achredu gydag ISO27001 – System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod preifatrwydd yn cael ei ddiogelu. Os byddwn yn gofyn i chi ddarparu unrhyw wybodaeth a fyddai'n datgelu pwy ydych chi; gallwch sicrhau mai yn unol â'r datganiad preifatrwydd hwn, a hynny'n unig y caiff ei defnyddio.

Mae NRS wedi cofrestru fel prosesydd data dan y Ddeddf Diogelu Data a gweithreda bob amser dan Ganllawiau'r Ddeddf Diogelu Data.

Cyfrifoldeb yr ysgol fydd ei data a hwythau fydd yn gwbl gyfrifol am gasglu, rheoli a diweddarau holl ddata'r myfyrwyr o fewn y system. Mae ysgolion a'r awdurdod lleol yn gweithredu fel Rheolwyr Data dan y Ddeddf Diogelu Data. Mae holl staff yr NRS a allai feddu ar fynediad gweinyddol i ddata ysgolion at ddiben cymorth, wedi cael eu gwirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Mae'r wybodaeth fydd angen ei chasglu i weithredu'r system Arlwygo Heb Arian wedi ei hamlinellu isod.

Gwybodaeth hanfodol a gesglir		Gwybodaeth opsiynol y gellir ei chasglu
Rhif Derbyn	Rhyw'r person	Lluniau
Cyfenw	Dyddiad Geni	Ethnigrwydd
Enw Cyntaf	Blwyddyn	Grŵp Tŷ Ysgol
Dosbarth Cofrestru	Lwfans FSM	RhUD

Nid yw Nationwide Retail Systems Ltd yn gwerthu, dosbarthu na lesio eich gwybodaeth bersonol i unrhyw drydydd parti.

Gallwch ofyn am fanylion y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chadw amdanoch dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

Mae NRS yn tynnu pob data oddi ar Weinyddwyr, wythnos ar ôl i'r 'System Heb Arian' fynd yn fyw yn yr ysgol.

Os ydych yn credu bod unrhyw wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanoch yn anghywir neu'n anghyflawn, ysgrifennwch atom, neu anfonwch e-bost atom cyn gynted â phosibl, i'r cyfeiriad isod.

Nationwide Retail System Limited

Whaley Road

Barugh Green

Barnsley

S75 1HT

01226 732 200

support@nrsltd.com

Gwybodaeth Fiometrig Dechnegol

Mae'r templedi unigol wedi cael eu hamgryptio gan ddefnyddio allwedd AES 256 did sydd wedi cael ei adeiladu i mewn i galedwedd y sganwyr. Hefyd, mae'r ffeil barhaus wedi cael ei hamgryptio drwy ddefnyddio allwedd AES 256 did gwahanol sydd wedi ei adeiladu i mewn i'r algorithm cyfatebol a ddarperir gan Secugen ac sydd yn cael ei generadu gan drwydded unigryw a brynir ar gyfer pob safle. Mae hyn yn fwy diogel na safonau ANSI ac ISO y mae adrannau'r Llywodraeth yn eu defnyddio, am fod templed Secugen wedi cael ei amgryptio, o gymharu â safonau ANSI ac ISO sydd heb eu hamgryptio. Mae data'r templed yn ddiwerth ac ni ellir ei ddehongli yn ôl i ddelwedd bysbrint defnyddiol. Pe na fyddai hyn yn digwydd, ni fyddai safonau byd a mesurau perfformiad ar gyfer y fath dechnolegau. Mae'r data yn cael ei storio mewn trefn yn RAM y Rheolwr Biometrig ac mae hefyd yn cael ei storio'n barhaol ar yriant caled y Rheolwr Bio i'w adfer be fyddai'n rhaid ei ailgychwyn.

Isod, mae enghraifft o gôd templed bys

```
unigol0X417741414142514141414445415141414151415341414D415A4141414141414174774541414C714777346C5
869656D6C574945494A764A6B42466D6837616C4E764D704F517874517A706A4A395A31784935686C417739536672
6E777645576357386C4573314B426F47443166694170675559704C763168423642682A7043
```

Mae'r dull yn ddiogel am nad oes modd ei gyfateb heblaw y ceir caniatâd yr unigolyn am fod rhaid dangos y bys i'r ddyfais cyn iddo ymateb. Nid ydym yn cadw lluniau o olion bysedd ar ein system.

Mae'r dechnoleg sydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y dull hwn o adnabod yn bodloni canllawiau BECTA ac mae hefyd yn caniatáu i fyfyrwyr eithrio o'r cynllun, a defnyddio rhif PIN yn lle.

Hefyd, dan y ddeddf diogelu data, ni all yr ysgol na'r arlwywr (dechreuwr y data) ganiatáu i unrhyw un gael mynediad i'r data hwn am unrhyw reswm arall heblaw am at y diben y casglwyd y data yn y lle cyntaf, sef adnabod unigolyn o fewn y dull yr ydym yn ei gynnig. Mae unrhyw ddata biometrig sydd yn eiddo i unigolyn sydd yn gadael yr ysgol yn cael ei ddileu, ac mae hyn hefyd yn unol â chanllawiau BECTA.

Cwestiynau Cyffredin

C Beth yw System Heb Arian?

A Mae System Arlwygo Heb Arian yn ddatrysiad, a'i fwriad yw cyflawni anghenion a gofynion newidiol y Ddarpariaeth Arlwygo sydd ei angen gan Ysgolion ac Academiâu heddiw. Mae Datrysiad System Heb Arian 'Trust-e' yn caniatáu ysgolion i fod mewn gwell sefyllfa i ddarparu gwasanaeth prydau bwyd mwy cyflym ac effeithlon sy'n apelio fwy i fyfyrwyr.

C Beth yw Biometrig?

A Yn syml, dull o adnabod person unigol yw Biometrig. Byddwn yn defnyddio sgan algorithm sydd yn darllen rhwng 50 a 130 o bwyntiau ar y bys/bawd. Nid yw'n ôl bys mewn unrhyw ffordd ac nid yw'n ddefnyddiol mewn unrhyw ffordd heblaw am ar gyfer y system yma.

C Sut mae System Biometrig yn gweithio?

A Mae gwybodaeth am ddisgybl neu aelod o staff sydd wedi cael eu cofrestru'n fiometrig, yn cael ei storio ar Reolwr Biometrig diogel yn yr ysgol, y gall ein darparwr Nationwide Retail Systems Ltd, a hwythau'n unig, ei chyrru. Unwaith mae credyd ar y cyfrif, mae'r disgybl neu aelod o staff yn gosod eu bys/bawd ar y botwm EPOS sydd yn chwilio am fanylion eu cyfrif a'u caniatáu i brynu eitemau gan ddefnyddio'r dull, a'r dull adnabod hwnnw'n unig.

C Sut gall fy mhientyn gofrestru ar y System Biometrig?

A Bydd diwrnodau cofrestru yn cael eu cynnal yn arwain at y diwrnod y bydd y System Heb Arian yn mynd yn fyw. Ar yr adeg yma bydd mannau cofrestru yn cael eu lleoli yn yr ysgol. Bydd eich plentyn yn mynychu ar adeg benodol a bydd angen iddynt osod eu bys/bawd ddwywaith ar y synhwyrdd Biometrig i gael templed cyfatebol, sydd yn cymryd eiliadau yn unig. Os ydych wedi dewis eithrio o'r weithdrefn yma, bydd eich plentyn yn derbyn Côt PIN 4 digid.

C Pa ddulliau talu gellir eu defnyddio i gael credyd ar gyfrif?

A Gellir defnyddio unrhyw un o'r TRI dull canlynol i gael credyd ar gyfrif. Unwaith y bydd credyd ar gyfrif ni fydd modd tynnu'r arian allan a rhaid ei wario ar wasanaethau prydau/egwyl ysgol yn unig. Rhaid bod gennych gôd mynediad 10 digid unigryw eich plentyn ar gyfer yr holl ddulliau talu.

- **Talu ar lein**

Rydym wedi cyflwyno dull i dalu ar lein mewn partneriaeth â'r System Arlwygo Heb Arian. I dalu ar lein, ewch i www.torfaen.gov.uk i wneud tâl electronig. Mae cyfarwyddiadau manwl ar y tudalennau canlynol.

- **Talu'n Awtomatig dros y Ffôn**

Ffoniwch 0845 8500855 a dilynwch y cyfarwyddiadau os gwelwch yn dda

- **Yn Bersonol yn un o'n swyddfeydd arian parod**

Canolfan Gofal Cwsmeriaid Cwibrân, 1-2 Sgwâr y Cadfridog Rees, Cwibrân, NP44 7NX	8:30am-4:45pm Dydd Llun, dydd Mercher a dydd Iau	9:30am-4:45pm Dydd Mawrth	8:30am- 4:15pm Dydd Gwener
---	--	------------------------------	----------------------------------

Canolfan Gofal Cwsmeriaid Pont-y-pŵl. Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB	9:30am-4:30pm Dydd Llun – ddydd Gwener
Canolfan Gofal Cwsmeriaid Blaenafon. Canolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon, Church Road, Blaenafon, NP4 9AS	9:30am-2:30pm Dydd Mawrth – ddydd Gwener

C Sut gallaf weld faint o gredyd sydd ar gyfrif?

A Gall eich plentyn weld faint sy'n weddill wrth y til. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chyfrif eich plentyn e-bostiwch ni, gan ddyfynnu enw llawn eich plentyn a rhif y cyfrif.
Cashless.Catering@torfaen.gov.uk

C A allaf newid yr 'Uchafswm Gwario' dyddiol?

A Gallwch - Mae yna derfyn o £5 ar yr "Uchafswm Gwario" ond gellir newid hwn drwy anfon cais ysgrifenedig i Toni Edwards, Rheolwr Arlwy/Glanhau, CAG Croesyceiliog, Y Briffordd, CWMBRÂN, NP44 2HF. Ffôn: 01633 647712 neu drwy e-bost: Cashless.Catering@Torfaen.gov.uk gan ddyfynnu enw llawn eich plentyn a rhif y cyfrif

C Beth fydd yn digwydd os na fydd credyd ar gerdyn fy mhientyn?

A Mae modd prosesu 'benthyciad' ar y Derfynell EPOS a fydd yn caniatáu i'r plentyn i gael bwyd. Gwneir hyn yn ôl disgrisiwn y Rheolwr Arlwy/Glanhau.

Mae modd trefnu gorddrafft awtomatig fydd yn caniatáu i'r disgybl/aelod staff i fynd i ddyled sy'n cyfateb i bris 1 pryd. Eto, mae hyn yn ôl disgrisiwn y rheolwr.

Mae gan y System Arlwy Heb Arian gyfleuster i olrhain dyled a'r gallu i anfon llythyrau dyled, e-byst a negeseuon testun i ddeiliaid cyfrifon sydd mewn dyled.

C Sut mae'r 'hawl i brydau am ddim' yn gweithio?

A Bydd pawb sydd â hawl i dderbyn prydau bwyd am ddim yn cael eu cynnwys ar y system cyn y diwrnod y bydd y system yn mynd yn fyw. Bydd y System Arlwy Heb Arian yn clustnodi'r symiau'r prydau bwyd am ddim i'r cyfrifon priodol yn awtomatig, bob dydd. Bydd hyn yn eu caniatáu i brynu prif bryd bwyd y dydd. Bydd y disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau bwyd am ddim yn cael eu cadw'n gyfrinachol bob amser am fod mynediad i bob math o gyfrifon yn digwydd yn yr un ffordd, p'un ai ydynt yn talu ai beidio. D.S. Ni fydd arian nad yw'n cael ei wario o'r swm y clustnodir ar gyfer prydau bwyd am ddim, yn cael ei gario drosodd i'r diwrnod nesaf.

C A all unrhyw un arall ddefnyddio cyfrif fy mhientyn?

A Na - Oherwydd y diogelwch helaeth ar dempledi Biometrig ni all unrhyw un gael mynediad i gyfrif eich plentyn. Fel rhagofal pellach, sicrhair bod llun ar gyfer pob disgybl. Os yw eich plentyn yn defnyddio Côt PIN 4 digid a bydd rhywun yn cael gafael arno ac yn ceisio ei ddefnyddio, ymddengys y llun ar y Derfynell EPOS a fydd yn rhybuddio'r gweithredwr y gallai fod twyll yn digwydd.

C Mae gan fy mhlentyn alergedd, sut fydd hyn yn cael ei fonitro?

A Bydd pob cofnod am alergedd ac anghenion dietegol arbennig sydd wedi eu cofrestru gyda'r Gwasanaeth Arlwygo, yn cael eu cofnodi ar y System Heb Arian. Pan fydd disgyblion yn ceisio prynu eitem sydd yn cynnwys cynhwysion sy'n achosi alergedd, bydd y system yn rhybuddio'r gweithredwr a'i atal rhag gwerthu'r eitem a ddewiswyd.

C A fedraf reoli anghenion dietegol fy mhlentyn?

A Bydd y system yn caniatáu i chi gofrestru unrhyw eitemau nad ydych yn caniatáu ar gyfer eich plentyn oherwydd anghenion dietegol neu gredoau crefyddol. Rhaid i'r rhiant/gwarcheidwad gadarnhau'r eitemau hyn yn ysgrifenedig i'r Rheolwr Arlwygo/Glanhau, gweler y manylion cyswllt uchod.

C A allaf ofyn am gofnod papur o'r prydau y mae fy mhlentyn yn ei

fwyta?

A Gallwch - Mae'r System Arlwygo Heb Arian yn caniatáu nifer o gyfleusterau ar gyfer adrodd, sydd yn cynnwys Arferion Dietegol. Gallwch wneud cais amdanynt drwy gysylltu ar Cashless.Catering@Torfaen.gov.uk

C Gyda phwy gallaf gysylltu os oes gennyf unrhyw ymholiadau ynglŷn

â'r gwasanaeth?

A E-bost: Cashless.Catering@Torfaen.gov.uk

Ffôn: 01633 647716

Ysgrifennu at:

Arlwygo Heb Arian

CAG Croesyceiliog

Y Briffordd


Cwmbrân

NP44 2HF


Talu dros y rhyngwyd am Fwyd yn yr Ysgol

Ewch i wefan y cyngor: www.torfaen.gov.uk a dewiswch 'Gwneud Taliad'

Efallai y bydd dolen hefyd o wefan yr ysgol i'r dudalen talu)



Fe welwch y dudalen ganlynol –



Dewiswch 'Taliadau Ysgol' ar y chwith yna -

Dewiswch ysgol y disgybl o'r gwymplen, pwyswch

Select

Dewiswch yr eitem o'r gwymplen - Arian Cinio (disgyblion) pwyswch

Select

Page shortcuts
Payment Entry Payment Review

Schools Payments Payment

Please note - information on this page will time-out after 15 minutes of inactivity
* = Mandatory Field

Math 9 Digits	Please select the school from the list.
Council Tax (9 Digits)	Please select the school from the list.
Business Rates (9 Digits)	Bläenavon Heritage VC Primary (3028) <input type="button" value="Select"/>
Housing Benefit Inv (8 Digits)	Please select item from the list.
Temporary Housing (9 Digits)	<input type="text"/> <input type="button" value="Select"/>
Parking Fines (7 Digits)	<input type="text"/>
Schools Payments	<input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>
Bully Collections	<input type="text"/>
Council Invoices	<input type="text"/>

Please enter the amount you wish to pay

Gift Aid

Select address from list or enter details manually below.

--- Select Address ---

Name

House No OR House Name

Street

Area

Town

County

Pwyswch rif cyfeirnod 10 digid y disgybl fel y cawsoch yn yr ohebiaeth gan yr ysgol yna ewch ymlaen i nodi enw'r disgybl, y swm yr ydych yn ei dalu a'ch cyfeiriad.

Pwyswch

Gallwch barhau i ychwanegu taliadau ar gyfer gwasanaethau/ysgolion eraill yn yr un ffordd.

Pan fyddwch wedi ychwanegu'r holl eitemau, pwyswch y botwm

Fe welwch y dudalen isod sydd yn gofyn i chi nodi manylion eich cerdyn talu, enw deiliad y cerdyn a chyfeiriad y deiliad. (Os yw'r cyfeiriad yr un peth â'r un a nodwyd ar y sgrin flaenorol, gallwch ei ddewis o'r rhestr)

Page shortcuts
Card Details Card Account Details

Make a Payment

Please note - information on this page will time-out after 20 minutes of inactivity
* =Mandatory Field

Payment Amount: £10.00

Card Details

Enter card number without spaces

Start date (month, year)

Expiry date (month, year)

Issue Number (Switch/Maestro Cards only)

Security Code

[Back To Top](#)

Card Account Details

Enter cardholder name and address details:
Name appearing on card

Select address from list, and click 'Select' button. Or enter details manually below.

S, ,S,S,S,S,S

House number/name

Street

s

Area

s

Fe welwch y dudalen gadarnhau ganlynol



Page shortcuts
Confirmation

Please Review & Confirm Your Payment

Please note - information on this page will time-out after 20 minutes of inactivity

Payment Amount: £10.00

Payment Details

Card Number: *****1111

Card type: Visa Credit

Account Type	Amount (£)	Charge (£)	Address
Schools Payments	10.00	0.00	S, ,S,S,S,S,S
Payment Amount	10.00		

Confirmation

After pressing Confirm, you will be re-posted to a holding page while your request is processed. When your request is completed you will be redirected to the next step in the payment process.

Please confirm the payment for the items listed above.

[Back To Payment Details](#) [Confirm](#) [Cancel](#) [Back To Top](#)

[Help](#) [Link opens in new window] [About](#)[link opens in new window]

Provided by Civica UK Limited

[ABOUT SSL CERTIFICATES](#)

Data Protection Act 1998

Pwyswch [Confirm](#) i dalu.

Bydd y system yn dweud wrthy ch os cafodd eich taliad ei dderbyn yn llwyddiannus, ac os felly bydd derbynneb yn ymddangos, yn cadarnhau eich tâl. Gellir ei argraffu neu ei e-bostio.

Bydd eich tâl arlwygo heb arian yn cael ei ddiweddarau o fewn 30 munud.